**Vivienne Harpwood, Cadeirydd / Chair**
Ffon / Phone: 01874 712502
E-bost / Email: Vivienne.Harpwood@wales.nhs.uk

**Carol Shillabeer, Y Prif Weithredwr / Chief Executive**
Ffon / Phone: 01874 712659
E-bost / Email: carol.shillabeer2@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

CS/HT/AE

16 Tachwedd 2020

Janet Finch-Saunders AS/MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl / Dear Ms Finch-Saunders

**DEISEBAU:**

**P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Velindre newydd arfaethedig**

**P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol**

Diolch am y cyfle i wneud sylwadau ar y deisebau uchod yn ymwneud â Chanolfan Ganser Velindre newydd yng Nghaerdydd. A wnewch chi dderbyn fy ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymateb.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gefnogol i'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser gan gynnwys y model gofal a gynigir ar gyfer yr ysbyty newydd. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiadau i'r dewis o safle ysbyty ar gyfer Canolfan Ganser Velindre newydd.

Ar adeg cwblhau'r achos busnes ar gyfer yr ysbyty newydd, datblygwyd proses Gomisiynu Cydweithredol ar draws byrddau iechyd yn y rhanbarth a roddodd gefnogaeth gomisiynu gadarnhaol i'r ysbyty newydd yn 2018. Dylid nodi yr oedd proses gynhwysfawr o gynnal drafodaethau ac ymgysylltiad dan arweiniad clinigwyr ledled y rhanbarth i ddatblygu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser a manylion y model clinigol a amlinellwyd yn yr achos dros fuddsoddi ar gyfer yr ysbyty newydd. Ni chawsom ein hysbysu o unrhyw bryderon

clinigol yn 2018 ynghylch y model clinigol arfaethedig, a dyluniwyd y broses graffu comisiynu yn bennaf i adolygu a chytuno ar y rhagdybiaethau cynllunio ac ariannol a gynhwysir yn yr achos i gyflawni'r model clinigol y cytunwyd arno.

Rydym yn deall bod pryder bellach am y model Oncoleg Acíwt arfaethedig a darparu gofal brys ac argyfwng yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- Asesiad oncoleg acíwt triniaethau dydd a chyfleusterau ar gyfer triniaeth.
- Cyd-ddibyniaeth therapi CAR-T a mynediad at gymorth gofal critigol.
- Mynediad cleifion imiwnotherapi i gymorth gofal critigol.
- Mynediad at Radioleg Ymyriadol - gan arwain at drosglwyddo cleifion i safleoedd acíwt.

Yn sgil datblygiadau cyflym mewn gofal canser ynghyd â newidiadau cyflym mewn triniaethau dydd, rydym yn croesawu'r adolygiad allanol o'r model clinigol gan Ymddiriedolaeth Nuffield i lywio dyluniad terfynol y cyfleuster canser yng Nghaerdydd. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr adolygiad hwn fel comisiynydd y gwasanaeth mewn partneriaeth â byrddau iechyd eraill ledled y rhanbarth.

Yn Gywir / Yours sincerely



**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr**
**Chief Executive**